ACHREDU CLYBIAU
Chwaraeon RhCT

# Grantiau a Chyllid 2026

(Wedi'i ddiweddaru: Ionawr 2026)

## Cronfa Chwaraeon yn y Gymuned Chwaraeon RhCT

- Mae'r gronfa yma ar gael ar gyfer unrhyw glwb chwaraeon cymunedol neu grŵp cymunedol Achrededig Chwaraeon RhCT yn Rhondda Cynon Taf sydd angen cymorth i ddatblygu cyfleoedd chwaraeon presennol neu newydd. Mae’r gronfa yma ar gyfer costau cychwyn hanfodol a sylfaenol hyd at tua £500. Ar gyfer prosiectau mwy byddwn ni'n gweithio gyda chi i wneud cais am gyllid allanol megis Cronfa Cymru Actif Chwaraeon Cymru. Mae'r gronfa yma ar agor drwy gydol y flwyddyn a chaiff penderfyniadau eu gwneud o fewn cyfnod o bythefnos fel arfer.
- I ddarllen ein trosolwg o'r Gronfa cliciwch yma - www.rctcbc.gov.uk/EN/Resident/SportsandLeisure/SportRCT/relateddocuments/SportRCTAccreditationCOMMUNITYSPORTFUNDWLSH.pdf.
- I wneud cais cysylltwch â chwaraeonrhct@rctcbc.gov.uk.

## Cronfa Bod yn Egnïol Cymru Chwaraeon Cymru

- Mae Cronfa Bod yn Egnïol Cymru yn grant wedi'i gefnogi gan y Loteri Genedlaethol. Mae'n ariannu clybiau chwaraeon a grwpiau cymunedol dielw ledled Cymru. Mae modd ichi wneud cais am grantiau gwerth £300 i £50,000 er mwyn cael rhagor o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon.
- Mae'r gronfa'n cefnogi offer, cyrsiau hyfforddi, llogi lleoliadau a gwelliannau i'r cae.
- £300–£25,000: Bydd Chwaraeon Cymru yn ariannu hyd at 90% o gostau'r prosiect. Chi fydd yn ariannu'r gweddill.
- £25,001–£50,000: Bydd Chwaraeon Cymru yn ariannu hyd at 80% o gostau'r prosiect. Chi fydd yn ariannu'r gweddill.
- Efallai mai dim ond 50% o gyllid y bydd rhai eitemau penodol yn ei gael neu efallai bod gyda nhw derfynau ariannol.
- Bydd tri chyfle i wneud cais eleni:
  - Cyfle 1: Dyddiadau i'w cyhoeddi.
  - Cyfle 2: Dyddiadau i'w cyhoeddi.
  - Cyfle 3: Dyddiadau i'w cyhoeddi.
- Am wybodaeth ewch i https://www.chwaraeon.cymru/grantiau-a-chyllid/cronfacymruactif/ neu e-bostio beactive@sport.wales

## Lle i Chwaraeon Chwaraeon Cymru – Crowdfunder

- Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio law yn llaw â Crowdfunder i gefnogi clybiau cymunedol i godi arian i wella eu cyfleusterau. Mae'r cynllun ar gyfer clybiau a grwpiau cymunedol dielw sy'n awyddus i godi arian ar gyfer gwelliannau 'oddi ar y cae'. Er enghraifft: ystafelloedd newid, toiledau, adnewyddu’r clwb, paneli solar, ffensys newydd, ardaloedd cegin a bar, offer cynnal a chadw’r cae.
- Mae clybiau a sefydliadau yn sefydlu tudalen ar wefan Crowdfunder, lle mae pobl yn rhoi arian i gefnogi achosion da a phrosiectau. Mae modd ichi greu tudalen codi arian ar gyfer eich clwb a'i rhannu gyda'ch aelodau a'r gymuned leol. Mae Crowdfunder yn darparu cymorth a chyngor, gan gynnwys hyfforddwr i'ch tywys trwy'r broses lle bo'n briodol. Caiff eich prosiect ei asesu gan Chwaraeon Cymru, a all benderfynu pa lefel o gyllid cyfatebol y byddwch yn gymwys i'w gael yn seiliedig ar y wybodaeth rydych wedi'i darparu. Os yw'r dudalen Crowdfunder wedi cyrraedd meini prawf penodol, bydd Chwaraeon Cymru yn rhoi arian cyfatebol hyd at 60% o'ch targed hyd at uchafswm o £15,000 o arian cyfatebol.
- Am wybodaeth ewch i https://www.chwaraeon.cymru/grantiau-a-chyllid/crowdfunder/ neu e-bostio aplaceforsport@sport.wales

## Cronfa Deddf Eglwys Cymru (sy'n cael ei gweinyddu gan Adran Adfywio a Chynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf)

- Mae'n darparu cymorth ar gyfer gwariant cyfalaf megis: adnewyddu adeiladau cymunedol, prynu offer cyfalaf neu ddibenion sy'n fuddiol i'r gymuned ehangach. Ar gael i grwpiau cymunedol cyfansoddiadol ac elusennau. Rhaid i gyfleusterau fod ar gael i aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol. Does dim modd i sefydliadau sydd naill ai wedi'u trwyddedu i werthu alcohol, sydd â thystysgrif safle clwb, neu sy'n gweithredu o gyfeiriad preswyl wneud cais.
- Does dim angen cyfraniad gan yr ymgeisydd ar gyfer grantiau bach (hyd at £3,000). Mae grantiau canolig (hyd at £15,000) yn gofyn am gyfraniad o 10% gan yr ymgeisydd. Mae grantiau mawr (hyd at £50,000) yn gofyn am gyfraniad o 20% gan yr ymgeisydd.
- Mae'n darparu cymorth ar gyfer gwariant cyfalaf megis: adnewyddu adeiladau cymunedol, prynu offer cyfalaf neu ddibenion sy'n fuddiol i'r gymuned ehangach.
- Am wybodaeth ewch i www.rctcbc.gov.uk/CY/Business/BusinessandThirdSectorGrants/WelshChurchActFund.aspx neu e-bostio adfywio@rctcbc.gov.uk

## Cronfa Gymunedol Pen y Cymoedd

- Mae'r gronfa yma'n cael ei chefnogi gan Brosiect Ynni Gwynt Pen y Cymoedd. Mae modd i ardaloedd penodol yng Nghwm Rhondda a Chwm Cynon wneud cais. Mae rhestr lawn o drefi a phentrefi o fewn yr Ardal Buddion i'w gweld yma. Mae dau grant ar gael: y Gronfa Ficro (hyd at £6,500) a'r Gronfa Weledigaeth (dros £6,500).
- Mae dau gyfle i wneud cais ar gyfer y Gronfa Ficro bob blwyddyn – dyddiadau i'w cyhoeddi.
- Mae'r Gronfa Gweledigaeth yn cynnig grantiau dros £6,500 (cyfalaf a/neu refeniw) i gefnogi gweithgareddau sy'n helpu i gyflawni un neu ragor o'r blaenoriaethau a nodir ym Mhrosbectws y Gronfa. Mae modd i fusnesau newydd a rhai sy'n datblygu, y sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol wneud cais. Er nad yw cyrff y sector cyhoeddus yn gymwys, rydyn ni'n croesawu gweithio mewn partneriaeth.
- Am ragor o wybodaeth ewch i www.penycymoeddcic.cymru neu e-bostio Enquiries@penycymoeddcic.cymru

## Grant Cymunedol Meysydd Glo (Cymru)

- Mae grantiau o £500 hyd at £7,000 ar gael i fudiadau cymunedol a gwirfoddol mae modd iddyn nhw ddangos yn gryf y bydd grant yn cael effaith gadarnhaol ar bobl sy'n byw yng nghymunedau Meysydd Glo Cymru Cymru [gwiriwch cyn gwneud cais drwy'r ddolen yma].
- Nod y rhaglen yma yw cefnogi sefydliadau cymunedol a gwirfoddol, sy'n rheoli cyfleusterau cymunedol, i gael mynediad at gyllid sydd ei angen i: ddiogelu; cynnal; a/neu wella eu cyfleusterau cymunedol.
- Am ragor o wybodaeth ewch i https://www.coalfields-regen.org.uk/crt-support neu e-bostio cymru@meysyddglo-regen.org.uk

## Grant Cit Cymru Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo

- Grant Cit Cymru Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo Nod y grant yw cael rhagor o bobl sy'n byw mewn cymunedau glofaol yng Nghymru (13–19 oed) i chwarae a pharhau i chwarae chwaraeon. Mae ystadegau Chwaraeon Cymru yn tynnu sylw at ostyngiad brawychus yn nifer y chwaraewyr cofrestredig yn y grŵp oedran yma. Mae uchafswm grant o £750 ar gael i brynu cit chwaraeon. Ar gyfer clybiau chwaraeon o gymunedau glofaol Cymru [gwiriwch cyn gwneud cais drwy'r ddolen yma]. Mae modd gwneud cais i'r gronfa drwy gydol y flwyddyn.
- Rhagor o wybodaeth: Grant Cit Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo neu cysylltwch â gameonwales@coalfieldsregen.uk

## Cronfeydd Fferm Wynt Maerdy a Threorci

- Cronfa Fferm Wynt Treorci: grantiau o £500 hyd at £10,000 ar gael i unigolion a grwpiau o ardal Treorci. Am ragor o wybodaeth ewch i www.treorchywindfund.co.uk
- Cronfa fferm Wynt Maerdy: grantiau o £500 hyd at £10,000 ar gael i unigolion a grwpiau o ardal Maerdy. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.maerdywindfund.co.uk

## Ymddiriedolaeth Gymunedol Cod Post

- Mae grwpiau cymunedol neu wirfoddol cyfansoddedig (gan gynnwys clybiau chwaraeon amatur) yn gymwys i wneud cais am hyd at £2,500 i gefnogi prosiectau o dan 7 thema sy'n cynnwys: galluogi gweithgaredd corfforol.
- Am ragor o wybodaeth ewch i www.postcodecommunitytrust.org.uk/ neu e-bostio info@postcodecommunitytrust.org.uk

## Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm

- Mae'r ymddiriedolaeth yn darparu cefnogaeth i brosiectau sy'n ysbrydoli ledled Cymru.
- Mae yna grant lleol hefyd sy'n croesawu ceisiadau ym maes chwaraeon. Mae'r grant yma hyd at £5,000 ac mae'n cefnogi sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth i gymuned.
- Dyddiadau i'w cyhoeddi.
- Am ragor o wybodaeth ewch i www.millenniumstadiumtrust.org.uk/

## Arian i Bawb Cymru – y Loteri Genedlaethol

- Prif nod y rhaglen yw ariannu prosiectau sy'n cynnwys pobl yn eu cymuned leol, gan ddod â nhw at ei gilydd i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau, a'u mwynhau. Mae modd i'r gweithgareddau yma ymwneud â threftadaeth, elusennau, iechyd, addysg, yr amgylchedd, yn ogystal â gweithgareddau eraill.
- Caiff grantiau gwerth rhwng £300 a £20,000 eu dyfarnu i ymgeiswyr llwyddiannus.
- Am ragor o wybodaeth, ewch i https://www.tnlcommunityfund.org.uk/welsh/funding/programmes/national-lottery-awards-for-all-wales neu e-bostio wales@tnlcommunityfund.org.uk

## Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol – Pawb a'i Le

- Mae dwy lefel i'r cyllid yma: Mae grantiau canolig (£20,001 i £100,000) a mawr (£100,001 i £500,000) ar gael i sefydliadau gwirfoddol, cymunedol neu sector cyhoeddus. Mae modd iddo ariannu costau cyfalaf a refeniw.
- Am ragor o wybodaeth am y grant canolig ewch i https://www.tnlcommunityfund.org.uk/welsh/funding/programmes/people-and-places-medium-grants
- Am ragor o wybodaeth am y grantiau mawr ewch i https://www.tnlcommunityfund.org.uk/welsh/funding/programmes/people-and-places-large-grants

## Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol sy'n cael ei chynnig gan Lywodraeth Cymru

- Mae'n gynllun grant cyfalaf y mae modd ei ddefnyddio i wella cyfleusterau cymunedol sy'n ddefnyddiol i bobl yn y gymuned, ac sy'n cael eu defnyddio'n aml ganddyn nhw. Mae ar gael i grwpiau cymunedol a gwirfoddol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol.
- Mae grantiau ar gael ar ddwy lefel: grantiau bach o dan £25,000 a grantiau mwy hyd at £300,000.
- Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://llyw.cymru/rhaglen-cyfleusterau-cymunedol

## Sefydliad Moondance

- Mae Sefydliad Moondance yn sefydliad elusennol teuluol (Rhif Elusen Gofrestredig: 1139224) ac yn gwmni cofrestredig cyfyngedig drwy warant (Rhif cwmni: 07448773) sy'n anelu at ddarparu cyllid gwerth £20 miliwn yn flynyddol.
- Rydyn ni'n derbyn ceisiadau am gyllid gwerth dros £500 gan elusennau cofrestredig, grwpiau cymunedol â chyfansoddiad, mentrau cymdeithasol, Sefydliadau Buddiant Cymunedol, Cwmnïau Buddiant Cymunedol a sefydliadau dielw eraill.
- Rhagor o wybodaeth: Sut i wneud cais — Sefydliad Moondance neu e-bostio moondancefoundation@gmail.com

## Sefydliad Elusennol Trusthouse

- Sefydliad sy'n rhoi grantiau i sefydliadau lleol bach a chanolig yn y DU ydyn ni, gyda hanes llwyddiannus o weithio i fynd i'r afael â materion lleol mewn cymunedau o amddifadedd trefol eithafol ac ardaloedd gwledig difreintiedig.
- Rhagor o wybodaeth: Grantiau Bach | Sefydliad Elusennol Trusthouse neu e-bostio grants@trusthousecharitablefoundation.org.uk

## Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru

- Rydyn ni'n gwybod y gall ein gwaith achosi aflonyddwch weithiau yn y cymunedau rydyn ni'n gweithio ynddyn nhw. Rydyn ni am roi cyfle i'n cwsmeriaid a'n grwpiau lleol wneud gwahaniaeth yn y cymunedau y maen nhw'n byw ynddyn nhw, trwy gynnig cyllid tuag at brosiect cymunedol o'u dewis. Gall grwpiau cymunedol wneud cais am grant hyd at £5,000 tuag at eu prosiect.
- Dyddiadau i'w cyhoeddi.
- Rhagor o wybodaeth: https://corporate.dwrcymru.com/en/community/community-fund

## Cronfa Gymunedol Tesco

- Mae Tesco Stronger Starts ar agor i bob ysgol, elusen gofrestredig a sefydliad nid-er-elw sy'n cefnogi plant a phobl ifainc i wneud cais am grant o hyd at £1,500. Bob tri mis, caiff tri achos da lleol eu dewis i gwsmeriaid bleidleisio drostyn nhw gyda thocynnau glas mewn siopau Tesco ledled y DU.
- Am ragor o wybodaeth: https://tescostrongerstarts.org.uk/apply-for-a-grant/ neu e-bostio info@groundwork.org.uk

## Cronfa Gymunedol Leol y Co-op

- Mae Cronfa Gymunedol Leol y Co-op yn cefnogi prosiectau ledled y DU sydd o bwys i'n cymunedau. Rydyn ni'n cydweithio mewn partneriaeth â miloedd o achosion lleol bob blwyddyn i helpu i greu dyfodol cynaliadwy ar gyfer y bobl a'r blaned. Rydyn ni wedi rhannu £114 miliwn gyda 36,500 o brosiectau cymunedol unigryw ledled y DU ers 2016. Ar gael i grwpiau nid-er-elw sy'n helpu i greu cyfleoedd i bobl ifainc, yn gwella lles meddyliol ac yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol.
- Am ragor o wybodaeth: https://causes.coop.co.uk/ neu e-bostio communityteam@coop.co.uk

## Interlink Rhondda Cynon Taf

- Elusen dan arweiniad aelodau yw Interlink RCT gyda dros 700 o sefydliadau cymunedol a gwirfoddol yn Rhondda Cynon Taf. Interlink RCT yw Cyngor Gwirfoddol y Sir ar gyfer Rhondda Cynon Taf. Mae ein haelodau'n amrywio o grwpiau cymunedol bach i elusennau mwy, ac rydyn ni wrth ein bodd yn gweithio gyda nhw i gyd.
- Rhagor o wybodaeth: Cyllid – Interlink RhCT neu e-bostio grants@interlinkrct.org.uk

## Partneriaeth Gymunedol One Stop

- Derbyniodd ymgeiswyr llwyddiannus grant cychwynnol o hyd at £1,000 a dechrau partneriaeth â'u siop One Stop leol. Mae'r rhaglen yma wedi'i chynllunio i gefnogi grwpiau neu sefydliadau cymunedol sy'n gweithredu o fewn dwy filltir i siop One Stop, gan gynnwys clybiau chwaraeon ar gyfer timau ieuenctid ac iau.
- Bydd y rhaglen yma'n ailagor ar 2 Mawrth 2026.
- Am ragor o wybodaeth ewch i One Stop Community Partnership - Groundwork neu anfonwch e-bost at: onestop@groundwork.org.uk

## Cronfa Budd Cymunedol Fferm Wynt Mynydd Portref

- Mae'r Gronfa ar agor i brosiectau cymunedol sydd er budd trigolion pedair Ward Brynna, Gilfach-goch, Llanharan a Gorllewin Tonyrefail. Dyddiad cau: Does gan y Gronfa yma ddim dyddiad cau. Mae grantiau sydd ar gael fel arfer yn amrywio o £250 i £10,000 er bod modd rhoi symiau mwy os oes amgylchiadau eithriadol.
- Rhagor o wybodaeth: Cronfa Budd Cymunedol Fferm Wynt Mynydd Portref - Grantscape
- E-bost: info@grantscape.org.uk

## Sefydliad Cymunedol Cymru - Cronfa i Gymru [Cefnogir gan sefydliad Postcode Community Trust]

- Mae Cronfa i Gymru ar agor i elusennau a sefydliadau gwirfoddol bach, lleol, dan arweiniad y gymuned (e.e. cymdeithasau, mentrau cymdeithasol, Cwmnïau Buddiannau Cymunedol a chlybiau), sydd ag incwm blynyddol o lai na £100,000.
- Mae deilliannau'r gronfa'n cynnwys: gwella cyfleoedd pobl mewn bywyd, adeiladu cymunedau cryfach, annog pobl a chymunedau iachach a mwy egnïol.
- Mae grantiau rhwng £500 a £2,000 y flwyddyn am hyd at 3 blynedd ar gael i sefydliadau y mae eu ceisiadau yn cyflawni orau yn erbyn y deilliannau uchod.
- Bydd Cronfa i Gymru ar agor am gyfnod o chwe mis, gyda chyfarfodydd panel yn cael eu cynnal tua diwedd pob mis i adolygu ceisiadau a dosbarthu cyllid ar sail dreigl (mae modd i hyn newid).
- Am ragor o wybodaeth ewch i Cronfa i Gymru - Sefydliad Cymunedol Cymru neu anfonwch e-bost at: grants@communityfoundationwales.org.uk

## Cronfa Joanies Fund (Cymru a Lloegr)

- Mae cronfa Joanies Fund ar agor i geisiadau gan brosiectau ledled Cymru a Lloegr. Mae'n cefnogi ystod eang o brosiectau cymunedol sy'n gweithio gyda phobl ifainc rhwng 0 a 25 oed yn unig. Mae grantiau'n cael eu rhoi ar gyfer costau rhedeg, costau prosiect a chostau craidd, yn ogystal â chostau cyfalaf. Fydd y grant cyfartalog ddim yn fwy na £3000.
- Am ragor o wybodaeth ewch i Joanies Fund (England & Wales) | Herefordshire Community Foundation

## Hyrwyddwyr Cymunedol Persimmon

- Yn Persimmon rydyn ni'n falch o gefnogi cannoedd o achosion gwych yn y rhanbarthau rydyn ni'n adeiladu ynddyn nhw. Mae pob un o'n 30 swyddfa ledled y DU yn rhoi hyd at £6,000 bob chwarter i sefydliadau lleol. Dyma ein hymrwymiad i adael effaith gadarnhaol barhaus yn y cymunedau lle rydyn ni'n gweithio.
- Am ragor o wybodaeth ewch i Community Champions | Persimmon Homes | Persimmon Homes neu anfonwch e-bost at contact@persimmonhomes.com

## Camau Cynaliadwy Cymru – Grantiau Egin

- Mae'r cyllid yma'n cefnogi grwpiau cymunedol yng Nghymru sy'n cymryd camau gweithredu ynghylch y newid yn yr hinsawdd ac sy'n anelu at fyw'n fwy cynaliadwy neu'n eu helpu i roi hwb i'w syniadau; mae hyn yn cynnwys defnyddio neu gynhyrchu ynni mewn modd mwy cynaliadwy. Mae modd gwneud cais am gostau cyfalaf fel prynu offer, adnewyddu neu ddatblygu tir neu adeiladau, gwaith adeiladu arall yn ogystal â chostau refeniw ychwanegol. Mae symiau rhwng £100 a £1500 ar gael.
- Am ragor o wybodaeth ewch i Camau Cynaliadwy Cymru - Grantiau Egin | Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol neu anfonwch e-bost at: camaucynaliadwycymru@tnlcommunityfund.org.uk

## Sefydliad Morrisons Foundation

- Mae'r sefydliad Morrisons Foundation yn cynnig grantiau hyd at £10,000 i elusennau cofrestredig sy'n cyflawni prosiectau o fewn ein tri amcan ariannu: 1. Mynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd cymdeithasol; 2. Gwella mannau, cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol; 3. Gwella iechyd a lles. Mae'r gronfa'n derbyn ac adolygu ceisiadau'n barhaus. Does dim dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau.
- Am ragor o wybodaeth ewch i Grant Funding Request | Morrisons Foundation neu anfonwch e-bost at foundation.enquiries@morrisonsplc.co.uk

## Sefydliad The Hargreaves Foundation

- Mae'r Hargreaves Foundation yn sefydliad elusennol sy'n rhoi grantiau a gafodd ei sefydlu yn 2020 gan Peter Hargreaves a'i deulu. Mae ceisiadau ar agor i sefydliadau sy'n ceisio cyllid i gefnogi'r rhai o dan 18 oed, ac sy'n byw gyda phroblem iechyd meddwl, anabledd corfforol neu'n tyfu i fyny mewn tlodi, a hynny drwy gyfryngau chwaraeon ac addysg.
- Bydd y grantiau'n cael eu dyrannu i ariannu prosiectau, mentrau neu brynu eitemau penodol yn unig, a lle bynnag y bo modd, bydd taliadau'n cael eu gwneud yn uniongyrchol i gyflenwyr. Does gyda ni ddim isafswm nac uchafswm o ran lefelau grant.
- Am ragor o wybodaeth ewch i Application Process » Home neu anfonwch e-bost at info@thehargreavesfoundation.org

## Sefydliad The Dickie Bird Foundation

- Mae grantiau ar gael i blant difreintiedig o dan 16 oed i dalu am offer a dillad chwaraeon hanfodol YN UNIG. Dydy'r grant ddim yn talu am gostau teithio na hyfforddiant. Mae'r taliad ar gyfer unigolion felly ni ddylai timau/grwpiau wneud cais. Mae grantiau a ddarperir gan y Sefydliad wedi'u cyfyngu i ddim mwy na £500 fesul unigolyn fel bod modd i ni rannu ein harian yn eang i'r unigolion mwyaf anghenus.
- Am ragor o wybodaeth ewch i Grants – The Dickie Bird Foundation

## Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi - CGGC

- Mae Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn gynllun grant gan Lywodraeth Cymru a weinyddir gan CGGC. Ei amcan yw darparu cyllid grant i gymunedau sy'n byw ger safle tirlenwi neu orsaf trosglwyddo gwastraff. Defnyddiwyd grantiau yn flaenorol i wella effeithlonrwydd ynni yn eu tŷ clwb ochr yn ochr â gwelliannau i'r adeilad i ymgysylltu â'u cymuned. Mae modd i sefydliadau wneud cais am grantiau o £5,000 i £49,999.
- Am ragor o wybodaeth ewch i https://wcva.cymru/cy/hafan/

## Cyllid Cymunedol Cynghorau Trefi

- Mae amrywiaeth o gronfeydd cynghorau trefi ar gael i ardaloedd penodol ledled Rhondda Cynon Taf. Mae'r cyllid yma fel arfer ar gael i unigolion neu grwpiau sy'n ceisio gwneud gwahaniaeth yn eu cymuned leol. Mae rhai tudalennau ariannu gweithredol yn cynnwys:
    - Hirwaun a Phenderyn: Cyllid Grant - Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn
    - Llanharan: Grantiau - Cyngor Cymuned Llanharan
    - Llanhari: Grantiau/Cymorth Ariannol – Cyngor Cymuned Llanhari
    - Llantrisant: Grantiau Cymunedol – Cyngor Cymuned Llantrisant
    - Llanilltud Faerdref: Ffurflenni Cymorth Grant a Gwybodaeth i Fusnesau yn Llanilltud Faerdref
    - Pont-y-clun: Pont-y-clun
    - Pontypridd: Cynllun Grantiau Bach
    - Tonyrefail: Cynllun Grantiau Bach – Cyngor Cymuned Tonyrefail a'r Cylch
    - Ynys-y-bwl a Choed-y-Cwm: Grantiau – Cyngor Cymuned Ynys-y-bwl a Choed-y-Cwm

## Sported

- Sported yw'r elusen lawr gwlad fwyaf yn y DU. Rydyn ni'n arwain cydweithrediad rhwng mwy na 5,000 o grwpiau cymunedol, clybiau ieuenctid a chlybiau chwaraeon sy'n trefnu chwaraeon er lles ledled y DU. Drwy ymuno â'n rhwydwaith o dros 5,000 o grwpiau ledled y DU, mae clybiau a grwpiau cymwys yn cael cefnogaeth ac adnoddau AM DDIM gan gynnwys y newyddion diweddaraf am ariannu.
- Am ragor o wybodaeth ewch i Funding - Sported

## RhCT Gyda'n Gilydd

- Mae gan RCT Gyda'i Gilydd Garfan Rhaglenni a Grantiau Cymunedol yn ogystal â Charfan Trosglwyddo Asedau Cymunedol sy'n cefnogi Cymunedau, sefydliadau'r Trydydd Sector a'r Sector Gwirfoddol, a Phreswylwyr, i adeiladu cymunedau mwy cydnerth sydd ag adnoddau gwell.
- Rhagor o wybodaeth: gwefan neu e-bostio rhctgydangilydd@rctcbc.gov.uk

## Sefydliad Moondance

- Mae Sefydliad Moondance yn sefydliad elusennol teuluol (Rhif Elusen Gofrestredig: 1139224) ac yn gwmni cofrestredig cyfyngedig drwy warant (Rhif cwmni: 07448773) sy'n anelu at ddarparu cyllid gwerth £20 miliwn yn flynyddol.
- Rydyn ni'n derbyn ceisiadau am gyllid gwerth dros £500 gan elusennau cofrestredig, grwpiau cymunedol â chyfansoddiad, mentrau cymdeithasol, Sefydliadau Buddiant Cymunedol, Cwmnïau Buddiant Cymunedol a sefydliadau dielw eraill.
- Rhagor o wybodaeth: Sut i wneud cais — Sefydliad Moondance neu e-bostio moondancefoundation@gmail.com

## Sefydliad Pêl-droed CYMRU: Cronfa Addas ar gyfer y Dyfodol (ar gau ar hyn o bryd)

- ·Grantiau hyd at £25,000 ar gael ar gyfer offer cynnal a chadw lleiniau a chynwysyddion storio.
- ·Mae grantiau hyd at £500,000 ar gael i gefnogi prosiectau cyfalaf, o welliannau i gaeau glaswellt i ddatblygu ystafelloedd newid.
- ·Mae canllawiau'n rhoi gwybodaeth am y dogfennau y bydd eu hangen arnoch chi i gyflwyno cais unwaith y bydd y gronfa'n ailagor. Ewch i https://faw.cymru/cff/funding/.

## Sefydliad Pêl-droed CYMRU: Cronfa Gwella Stadia (yn ailagor 2 Chwefror 2026)

- ·Grantiau hyd at £50,000 ar gael i gefnogi clybiau i fodloni meini prawf trwydded y gynghrair.
- ·Mae canllawiau'n rhoi gwybodaeth am y dogfennau y bydd eu hangen arnoch i gyflwyno cais unwaith y bydd y gronfa'n ailagor. Ewch i https://faw.cymru/cff/funding/.

Syniadau Da wrth Wneud Cais am Gyllid:

- Cynhwyswch ein carfan yn eich cais am gyllid; rydyn ni'n gallu helpu gydag arweiniad neu lythyr o gefnogaeth.
- Gwiriwch y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y grant [yr hyn rydych chi'n gofyn amdano, demograffig, ceisiadau am gyfalaf neu geisiadau am arian prosiect].
- Ystyriwch flaenoriaethau'r ariannwr [mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, budd cymunedol].
- Rhowch dystiolaeth o'r angen am eich cais [ardaloedd o amddifadedd, galw yn y gymuned].
- Dangoswch yr effaith ar y gymuned [yn ehangach na'r hyn sy'n digwydd ar y cae chwarae].
- Dangoswch lywodraethiant cryf [strwythur, dogfennau a hanes y clwb].
- Meddyliwch am gyllid cyfatebol neu ddefnyddio opsiynau eraill lle dydy cyllid sy'n ailadrodd ddim ar gael gyda'ch cyllidwr blaenorol.


Cysylltwch â ni

sportrct@rctcbc.gov.uk

scott.woodford@rctcbc.gov.uk

alisha.j.knapp@rctcbc.gov.uk


Chwaraeon RhCT

Sport RCT